**Teitl: Ffoaduriaid**

| Teitlau | Erthygl 1: Ffoi – Pa ddewis? | Erthygl 2: Arweinwyr Crefyddol yn Ffoaduriaid | Pwy yng Nghymru sy’n helpu’r ffoaduriaid? |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD**: Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am Ffoaduriaid fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>**Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:**<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt<br><br>**Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>**Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben; | | |

| Teitlau | Erthygl 1: Ffoi – Pa ddewis? | Erthygl 2: Arweinwyr Crefyddol yn Ffoaduriaid | Pwy yng Nghymru sy'n helpu'r ffoaduriaid? |
|---|---|---|---|
| | • Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb** - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig** - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd** - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes | | |
| **Geirfa allweddol** | Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol,<br>Ffoadur,<br>Crynwyr,<br>William Penn,<br>Pennsylvania,<br>Eglwys Anglicanaidd,<br>IS – Islamic State,<br>Yazidiaid,<br>Jihadwyr,<br>Cwrdiaid | Ffoaduriaid,<br>Dioddefaint,<br>Cydymdeimlad,<br>Creulondeb,<br>Proffwyd,<br>Hijrah,<br>Arweinydd ysbrydol,<br>Gormesu,<br>Hawliau,<br>Llysgennad,<br>Tosturi,<br>Heddychlon,<br>Di-drais. | Ffoadur/ffoaduriaid,<br>Ffoi,<br>Cyfarwydd,<br>Trawmatig,<br>Gwirfoddoli,<br>Breintiedig,<br>Cynulliad Cymru,<br>Noddfa,<br>Lloches,<br>Angenrheidiol,<br>Datganoledig,<br>Gwrthwynebus,<br>Tŷ capel, |

| Teitlau | Erthygl 1:  Ffoi – Pa ddewis? | Erthygl 2: Arweinwyr Crefyddol yn Ffoaduriaid | Pwy yng Nghymru sy’n helpu’r ffoaduriaid? |
|---|---|---|---|
| | | | Eglwys Uniongred,<br>Ddiwahân,<br>Cymuned ffydd. |
| **Geiriau chwilio** | Casineb,<br>Ymosodiadau rhyddid,<br>Ffoi,<br>Hawliau eglwys,<br>Gwleidyddol,<br>Economaidd,<br>Cristnogion,<br>Irac,<br>Syria,<br>Cenhedloedd Unedig,<br>Proffwyd,<br>Ffoadur/ffoaduriaid,<br>Hijrah,<br>Dalai Lama,<br>Muhammad,<br>Tosturi,<br>Iesu Grist,<br>Gwersyll,<br>Noddfa,<br>Lloches,<br>Diogelwch,<br>Eglwys Uniongred,<br>Croeso,<br>Cymorth,<br>Cynulliad Cymru, | | |

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Erthygl 1:  Ffoi – Pa ddewis?</th><th>Erthygl 2: Arweinwyr Crefyddol yn Ffoaduriaid</th><th>Pwy yng Nghymru sy’n helpu’r ffoaduriaid?</th></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Perygl.</td></tr>
<tr><td>Tasgau ymestynnol</td><td colspan="3">Enghreifftiau o dasgau ysgrifennu estynedig sy’n gofyn i’r disgyblion i ddefnyddio’r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol.<br>
• “Mae’r Datganiad ar Hawliau Dynol yn fwy gwerthfawr i’r ffoadur na chrefydd.”  Trafodwch.<br>
• Sut a pham mae cymunedau ffydd yn helpu ffoaduriaid? (e.e. traethawd, dialog, datganiad ar wefan cymuned grefyddol)<br>
• “Yn gymaint ag i chi ei wneud i un o’r lleiaf o’r rhain fy mrodyr, i mi a gwnaethoch.”  Beth yw arwyddocâd y ddameg hon i’r Cristnogion sy’n  cefnogi’r ffoaduriaid sy’n dod i Gymru. (e.e. ysgrifennu ymson o safbwynt Cristion/aelod o Cytûn)<br>
• ‘Mae teulu o ffoaduriaid wedi cyrraedd eich pentref, ysgrifennwch lythyron i’r mudiadau lleol (e.e. cyngor plwyf, addoldai lleol, clybiau a chymdeithasau) yn esbonio pam yr ydych am i’r gymuned estyn croeso iddynt.  (e.e. ysgrifennu perswadiol/ystyried y gynulleidfa)<br>
• Mae’r ‘Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn elusen sy’n cefnogi’r ffoaduriaid sy’n symud i Gymru.  Un o’r cwestiynau sydd ar y ffurflen gais i wirfoddolwyr yw, ‘Pam ydych am wirfoddoli gyda’r Cyngor Ffoaduriaid Cymru?  Beth fyddai’ch ateb chi /Cristion/Mwslim/Bwdhydd/<br>
• anffyddiwr?  (e.e. llenwi ffurflen ar wefan y WRC/CFfC ,  tasg llafaredd er mwyn paratoi at ‘gyfweliad’)<br>
• “Mae’n amhosib helpu’r miloedd sy’n ffoi!”  Beth yw’r ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i ‘broblem’ y ffoaduriaid?<br>
• Ai ‘fi’ neu ‘ni’ ddylai helpu’r ffoaduriaid?  (e.e. trafodaeth ddosbarth, araith berswadiol, llythyr ar gyfer y papur bro)<br>
• Mae crefydd yn fwrn ac yn fendith i ffoaduriaid.  Gan gyfeirio at brofiadau 3 neu 4 o ffoaduriaid, esboniwch ystyr y datganiad.<br>
• A yw derbyn ‘hawliau’ yn gosod ‘cyfrifoldebau’ arnom?  (e.e. trafodaeth – os ydym am yr hawl i ddianc, rhaid derbyn cyfrifoldeb dros eraill)<br>
• Nid ymatebion crefyddol sydd eu hangen ar y ffoaduriaid sy’n dod i Gymru.  Trafodwch.  (e.e. anghenion ymarferol ac ysbrydol)</td></tr>
<tr><td>Tasgau dosbarth<br><br>I</td><td>1. Gellir gofyn i’r disgyblion ysgrifennu darn creadigol yn seiliedig ar yr her sy yn y paragraff cyntaf.<br><br>2. Gellir gofyn i’r disgyblion wneud gwaith ymchwil i’r gwrthdaro rhwng y Crynwyr a’r Eglwys. Yna cyflwyno deialog rhwng swyddog o’r Eglwys a Chrynwr</td><td>1. Chwiliwch ar y Rhyngrwyd am hanes Aylan Kurdi. Sut wnaeth yr hanes ddeffro llawer i dynged ffoaduriaid o’r Dwyrain Canol?<br><br>2. Darllenwch ymhellach am hanes geni Iesu Grist ar ddechrau Efengyl Mathew a Luc. Rhestrwch yr hyn sy’n debyg ac yn wahanol i sefyllfa ffoaduriaid heddiw. Gallwch</td><td>1. Ysgrifennu rhestr. Rhaid gadael eich cartref o fewn 24 awr.  Does dim modd cario mwy nag un bag – beth fyddech chi’n ei roi yn y bag?  Lluniwch restr. Trafod y rhestrau ymhellach mewn grwpiau a dadlau o blaid/yn erbyn cynnwys y gwahanol eitemau a ddewiswyd.</td></tr>
</table>

| Teitlau | Erthygl 1: Ffoi – Pa ddewis? | Erthygl 2: Arweinwyr Crefyddol yn Ffoaduriaid | Pwy yng Nghymru sy'n helpu'r ffoaduriaid? |
|---|---|---|---|
| | 3. Gellir cael trafodaeth ddosbarth ar y testun - 'A oes unrhyw werth i Ddatganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol yn y byd heddiw.'<br><br>4. . Gellir gofyn i'r plant ymchwilio i hanes un o'r Crynwyr wnaeth ffoi I Pennsylvania ee Rowland Ellis Dolgellau. A oes cysylltiad rhwng Pennsylvania a Chymru heddiw?<br><br>5. Gellir gofyn i grwpiau ddewis un o'r enghreifftiau yn yr erthygl neu enghraifft arall o'u dewis a gofyn iddynt lunio eitem newyddion, teledu neu radio yn cyflwyno'r rhesymau crefyddol am ffoi<br><br>6. Fel gwaith cartref gellir gofyn iddynt ymchwilio ymhellach un o'r enghreifftiau yn yr erthygl.<br><br>7. Byddai modd gwahodd os yn bosibl rhywun sydd wedi ffoi oherwydd rhesymau crefyddol i drafod y mater ymhellach gyda'r disgyblion a rhoi cyfle iddynt eu holi. | wneud dwy golofn - tebyg ac annhebyg.<br><br>3. Un o ddamhegion enwocaf Iesu yw Dameg Barnu'r Cenhedloedd- **Efengyl Mathew 25:31-40.**<br>Beth mae Iesu'n ceisio'i ddweud yn y ddameg hon a beth yw'r neges inni o ran sefyllfa ffoaduriaid ein byd? Rhowch sylw arbennig i'r geiriau – 'Yn wir, rwy'n dweud wrthych, yn gymaint ag i chwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain fy mrodyr, i mi y gwnaethoch'.<br><br>4. Ni chafodd gwaith cynnar y Proffwyd Muhammad lawer o groeso gan bobl Makkah. Chwiliwch am wybodaeth bellach am y cyfnod hwn yn ei fywyd, e.e. ceir hanes enwog amdano'n cuddio mewn ogof pan wnaeth y pryfaid cop/corynnod we dros y fynedfa er mwyn twyllo'r sawl oedd yn ei erlid. (Gweler y DVD 'Animated World Faiths- Muhammad' gan Channel 4)<br><br>5. Mae'r Dalai Lama'n enwog am ei ddywediadau bachog. Chwiliwch am rai ohonynt gan eu gosod o dan benawdau yn ôl eu thema: hapusrwydd, ffydd, ymdrechu, daioni, tosturi/cydymdeimlad. Gweler y safle:<br>https://www.brainyquote.com/quotes/aut | 2. Gwnewch ymchwil i brofiadau un neu fwy o ffoaduriaid, er enghraifft Sidra sy'n rhannu ei phrofiad o fyw mewn gwersyll i ffoaduriaid: https://www.youtube.com/watch?v=mUosdCQsMkM neu Yusra Mardini a ddaeth yn nofwraig Olympaidd: http://www.bbc.co.uk/sport/olympics/36604675<br><br>3. Gwaith Cartref: holi 10 o bobl am eu hagwedd tuag at ffoaduriaid – eu croesawu neu yn wrthwynebus. Cofnodi'r canlyniadau neu lunio taflen *+ a – derbyn Ffoaduriaid I Gymru*<br><br>4. Llunio cerdyn croeso i'w roi trwy ddrws teulu o ffoaduriaid sy'n symud i'r ardal.<br><br>5. Creu ffilm fer yn cyflwyno'r ardal i ffoaduriaid<br><br>6. Creu rhestr o ymadroddion Cymraeg allweddol y dylai'r ffoaduriaid ddod yn gyfarwydd â hwy.<br><br>7. Ysgrifennu paragraff yn disgrifio teimladau ffoadur yn gadael ei gartref/ neu yn cyrraedd cartref newydd mewn gwlad newydd.<br><br>8. Crefft – creu blodyn allan o bapur. Dylid |

| Teitlau | Erthygl 1: Ffoi – Pa ddewis? | Erthygl 2: Arweinwyr Crefyddol yn Ffoaduriaid | Pwy yng Nghymru sy'n helpu'r ffoaduriaid? |
|---|---|---|---|
| | | hors/d/dalai_lama.html<br><br>6. Gan wneud defnydd o safle gwe swyddogol y Dalai Lama ymchwiliwch i un agwedd o'i waith; e.e. Ymateb y Dalai Lama i'w fywyd ef ac eraill o Tibet fel ffoaduriaid. http://www.dalailama.com<br><br>7. Ysgrifennwch lythyr at eich Aelod Cynulliad neu Aelod Seneddol yn mynegi eich barn chi ar sut y dylid ymateb i argyfwng ffoaduriaid heddiw. Cofiwch gyfeirio at Iesu Grist, Muhammad a'r Dalai Lama wrth lunio eich dadleuon.<br><br>8. Lluniwch boster fel ymateb i argyfwng ffoaduriaid. Bydd angen dyfyniadau perthnasol o'r gwaith darllen. | arddangos y gair Diolch ar y blodyn.<br><br>9. Cynllunio gwersyll ffoaduriaid delfrydol ar bapur.<br><br>10. Ysgrifennu paragraff yn crynhoi hanes Yusra Mardini<br><br>11. Ysgrifennu paragraff yn egluro, petai rhaid ffoi o Gymru, pam fydden nhw am ddod yn ôl yma wedi i'r perygl gilio |
| **Adnoddau pellach** | **Dolenni cyswllt/Llyfrau**<br><br>Y Stafell Ddirgel – Manon Eames<br><br>Y Rhandir Mwyn – Manon Eames<br><br>http://www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/hanes/pages/crynwyr.shtml<br><br>http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/mudo/crynwyr_america.shtml<br><br>https://www.theguardian.com/world/2014/aug/07/who-yazidi-isis-iraq-religion- | e,e, Beibl.net<br><br>Gwefan y Dalai Lamai | Achub y Plant – dau fideo https://www.youtube.com/watch?v=RBQ-IoHfimQ<br><br>https://www.youtube.com/watch?v=nKDgFCojiT8<br><br>Clouds Over Sidra: https://www.youtube.com/watch?v=mUosdCQsMkM –<br>Yusra Mardini a ddaeth yn nofwraig Olympaidd: http://www.bbc.co.uk/sport/olympics/366046 |

| Teitlau | Erthygl 1: Ffoi – Pa ddewis? | Erthygl 2: Arweinwyr Crefyddol yn Ffoaduriaid | Pwy yng Nghymru sy'n helpu'r ffoaduriaid? |
|---|---|---|---|
| | ethnicity-mountains | | 75<br><br>Cymorth Cristnogol – Ffoi i'r Aifft: http://www.christianaid.org.uk/cymru/news/escape-completed.aspx?Page=2<br><br>Cyngor Ffoaduriaid Cymru: http://wrc.wales/ |
| | Mae Oxfam yn cynnig hyfforddiant rhad ac am ddim ym Mangor er mwyn helpu ysgolion i gyflwyno'r thema i ddisgyblion.<br><br>http://www.oxfam.org.uk/education/teacher-support/inset-workshops-for-schools/wales/free-cpd-in-wales<br><br>**Dyma fanylion cyswllt y swyddog addysg**<br><br>**VICKY LEECH \| Cynghorydd Addysg ag Ieuenctid \| Education and Youth Advisor**<br>VLeech@oxfam.org.uk | | |